# SUT GALLWN NI DDEFNYDDIO AERON AC ECHDYNION PLANHIGION O DDYFFRYN GWY?

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.

Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Mae dysgwyr yn ystyried yr hyn maen nhw'n ei wybod yn barod am aeron ac yna'n dysgu mwy amdanyn nhw. Maen nhw'n gwneud ymchwil i ddarganfod pam mae aeron yn dda i'n hiechyd ac yn ysgrifennu slogan i berswadio eraill i fwyta mwy o aeron. Mae dysgwyr yn chwilota am aeron i wneud diod a'i werthu i eraill yn yr ysgol. Maent yn archwilio persbectif hanesyddol ar ddewiniaeth cyn ystyried sut mae gwrachod a meddygon llysiau yn gwneud defnydd o aeron at ddibenion meddyginiaethol, gan ystyried ai ffaith, cred neu farn yw'r syniadau hyn. Mae dysgwyr yn ystyried sut mae bodau dynol wedi defnyddio echdynion planhigion ar gyfer lliwio ffabrigau ac yn defnyddio mwyar duon i liwio crys-t gwyn, gan gymharu'r cynnyrch terfynol â chynnyrch eu chyfoedion. Maent yn ymchwilio ar-lein i ddarganfod sut i wneud llifynnau o echdynion planhigion ac fel dosbarth, maent yn defnyddio clytwaith o sgwariau ffabrig lliw patrymog i wneud clytwaith.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Crys-t gwyn, cotwm i'w liwio.
Dull o liwio ffabrig, halen, dŵr, llinyn, bandiau rwber, brigau, ac ati.
Dulliau o echdynnu echdynion planhigion a ddewiswyd, e.e. plâu a morter, morthwylion, dŵr berw, peiriant cymysgu, ac ati.
Sgwariau o gotwm gwyn, e.e. 10cm x 10cm (byddai hen gynfas gotwm yn addas).

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BETH YW AERON?

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i ddeall mwy ynghylch beth yw aeron a pham maen nhw'n dda i ni.

## Sgrîn 3

Mae delwedd o aeron ar y sgrîn hon. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n meddwl yw aeron? Pam?
- O ble mae aeron yn dod? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sawl gwahanol fath o aeron ydych chi'n gwybod amdanynt?
- Pa aeron ydych chi wedi'u bwyta? Beth oeddech chi'n feddwl o'r blas?

## Sgrîn 4

Rhoddir diffiniad o aeron go iawn yma. Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw botanegydd? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth yw ffrwyth?
- Beth yw ofari mewn blodyn? Ble mae'r ofari? Beth mae'n ei wneud?

## Sgrîn 5

Ar y sgrîn hon, rhoddir y wybodaeth mai ffrwythau yw aeron.

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i roi cynnig ar y cwis ynghylch pa rai o'r pethau a restrir ar y sgrîn hon sy'n aeron. Pan fydd dysgwyr wedi rhoi cynnig ar y cwis, maen nhw'n cael gwybod bod botanegwyr yn ystyried mai aeron yw pob un ohonynt.

## Sgrîn 7

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i ymchwilio ar y rhyngrwyd er mwyn darganfod pam mae aeron, yn yr ystyr traddodiadol, yn dda iawn i'n hiechyd.

Atgoffwch nhw bod angen iddynt ystyried y canlynol tra'n ymchwilio ar y rhyngrwyd:

*Cyn ymchwilio...*

- Sut byddwch chi'n cynnal yr ymchwiliad hwn? Pam?
- Pa dermau chwilio allech chi eu defnyddio? Pa rai yw'r gorau? Pam?
- Pa fath o wefannau fydd orau i edrych arnynt? Pam?

*Wrth asesu gwybodaeth/data...*

- Sut ydych chi'n gwybod bod y wybodaeth/data yn ddibynadwy? Sut allech chi ddarganfod hyn?
- A allai'r wybodaeth/data fod yn unochrog? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Gwahoddwch y dysgwyr i wneud eu hymchwil.

### Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr, gan eu bod wedi cwblhau eu hymchwil, mae angen iddyn nhw nawr ddefnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddarganfod i ysgrifennu slogan i berswadio eraill i fwyta mwy o aeron.

Ar y sgrîn, rhoddi'r enghreifftiau o sloganau bwyta'n iach. Gwahoddwch y dysgwyr i ddyfeisio slogan am aeron a'i rannu gyda'r dosbarth.

TASG 2

## PA AERON SY'N TYFU YN NYFFRYN GWY?

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y dasg hon yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ba aeron sydd i'w cael yn lleol a sut y gellir eu defnyddio i wneud diod iach.

### Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw'n mynd i chwilota am aeron ar gyfer gwneud diod a'u bod am ei werthu i eraill yn yr ysgol.

Fodd bynnag, yn gyntaf mae angen iddynt chwilota am aeron yn Nhirwedd Cenedlaethol Dyffryn Gwy. Rhestrir aeron nodweddiadol y gallent ddod o hyd iddynt.

### Sgrîn 4

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am ddyfeisio diod aeron, gwneud eu diod a'i werthu yn yr ysgol.

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth sydd angen i chi ei wneud yn gyntaf? Pam?
- Sut byddwch chi'n gwybod pa aeron sy'n fwytadwy?
- Sut byddwch chi'n gwybod pa aeron sy'n wenwynig?
- Sut byddwch chi'n storio'r aeron rydych chi'n eu chwilota?
- Pa fath o ddiod fyddwch chi'n ei wneud?
- Sut gallwch chi sicrhau bod eich diod yn iach ac yn blasu'n dda?
- Pa bwysau o aeron sydd angen i chi eu chwilota?
- Pa fath(au) o aeron sydd angen i chi eu chwilota?
- Pa gynhwysion eraill fydd eu hangen arnoch chi ar gyfer eich diod aeron?

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr wneud cynllun, gan ddefnyddio'r siart llif a ddarperir ar y sgrîn nesaf.

## Sgrîn 6

Dyma'r siart llif at ddefnydd y dysgwyr.

## Sgrîn 7

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i chwilota am aeron.

## Sgrîn 8

Eglurwch wrth y dysgwyr, gan eu bod nhw nawr wedi chwilota am aeron, bydd angen iddyn nhw eu glanhau, gwirio fod yr aeron i gyd yn fwytadwy ac nad ydynt yn wenwynig ac yna'u pwyso.

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw pwysau pob un math o aeron rydych chi wedi'u chwilota?
- Faint o'ch diod allwch chi ei wneud gyda'r pwysau hwn o aeron? Sut gallwch chi weithio hyn allan?
- Faint o bob cynhwysyn arall sydd ei angen arnoch chi? Sut gallwch chi weithio hyn allan?
- Beth yw cost y cynhwysion eraill?
- Faint ddylech chi ei godi am eich diod er mwyn i chi wneud elw? A fydd pobl yn fodlon talu hyn? Pam?

## Sgrîn 9

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n gwerthu eu diod yn yr ysgol a gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa wybodaeth sydd angen i chi ei rhoi i'r bobl sydd efallai am brynu'ch diod?
- Sut y byddwch yn rhoi'r wybodaeth hon iddynt?
- Ar gyfer pwy mae eich diod yn addas, o ran anghenion dietegol? (e.e. llysieuol, fegan, coeliag, diabetig, ac ati)
- Sut y byddwch yn annog pobl i ddewis prynu eich diod?
- Sut byddwch chi'n gwneud i'ch diod edrych yn ddeniadol?
- Pa enw ddylech chi ei roi i'ch diod, fel bod pobl eisiau ei brynu?

## Screen 10

Gwahoddwch y dysgwyr i wneud eu diod a'i werthu yn yr ysgol.

## Sgrîn 11

Eglurwch i'r dysgwyr eich bod chi am iddyn nhw ddefnyddio'r triongl myfyrio ar gyfer meddwl sut y gwnaethon nhw gynllunio, gwneud a gwerthu eu diod aeron.

Gwahoddwch y dysgwyr i lusgo a gollwng y termau a ddarperir i ddangos eu meddyliau ac i ystyried pa strategaethau eraill a ddefnyddiwyd ganddynt ac i gofnodi eu syniadau.

TASG 3

# DIODYDD Y MENYWOD DOETH

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y dasg hon yn eu hannog i archwilio persbectif hanesyddol ar ddewiniaeth a sut mae gwrachod bob amser wedi defnyddio aeron a chynhyrchion naturiol at ddibenion meddyginiaethol.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried y cwestiynau er mwyn meddwl yn ofalus beth a ddangosir yn y ddelwedd.

## Sgrîn 4

Ar y sgrîn hon, cyflwynir gwybodaeth hanesyddol am ddewiniaeth. Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n ei wybod am ddewiniaeth yn y gorffennol yng Nghymru?
- Pam ydych chi'n meddwl mai merched oedd y mwyafrif helaeth o wrachod?
- Sut ydych chi'n meddwl y byddai'r iaith a siaredir yn cael effaith ar bwy bynnag oedd yn cael ei henwi fel gwrach?

## Sgrîn 5

Fel man cychwyn, gallech chi ofyn i'r dysgwyr awgrymu pam maen nhw'n meddwl bod cyn lleied o wrachod wedi cael eu herlyn a'u dienyddio yng Nghymru. Yna, gellir ddarllen y testun sy'n esbonio pam.

## Sgrîn 6

Ar y sgrîn, ceir ffotograff o Ffynnon Santes Anne (Ffynnon Rinweddol) ger Trellech. Yn yr 17eg Ganrif, dywedir fod llawer o bobl yn mynd at y ffynnon ac yn ôl y sôn, roedd ei dyfroedd yn gallu gwella'r 'sgyrfi, colig ac afiechydon eraill'. Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y ffotograff a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiwn ffocws**

- Pam ydych chi'n meddwl bod y ffynnon yn y lleoliad hwn?
- Sut fyddai merched doeth Trellech yn arfer gwneud defnydd o'r ffynnon, yn eich barn chi?

## Sgrîn 7

Eglurwch wrth y dysgwyr fod gwrachod gwyn a meddygon llysiau yn credu'r pethau am fwyar duon, ar y sgrîn. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n ei feddwl o'r wybodaeth hon?
- A ydych chi'n meddwl mai ffaith, cred neu farn yw'r wybodaeth? Pam?
- Sut allech chi ddarganfod a yw'r wybodaeth yn ffaith, cred neu farn?

### Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu eu bod nhw'n fenyw ddoeth yn byw mewn pentref canoloesol. Rhoesant de gwraidd mwyar duon i Arglwydd lleol ar gyfer ei ddolur rhydd. Bu farw'r Arglwydd bedwar diwrnod yn ddiweddarach. Yna, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n meddwl fydd yn digwydd i chi? Pam?
- Sut allech chi geisio profi eich diniweidrwydd?

TASG 4

## DEFNYDDIO ECHDYNION PLANHIGION I LIWIO

Eglurwch wrth y dysgwyr y bydd y dasg hon yn eu hannog i archwilio sut mae bodau dynol wedi defnyddio echdynion planhigion yn hanesyddol ar gyfer lliwio ffabrigau, cyn ymchwilio a defnyddio lliwiau eu hunain.

### Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr fod bodau dynol wedi defnyddio echdynion planhigion i liwio ffabrigau, ers canrifoedd lawer. Gwahoddwch nhw i edrych ar y ddelwedd a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa echdynion planhigion sydd wedi'i defnyddio ar gyfer lliwio pob un o'r sgarffiau hyn, yn eich barn chi? Pam?

### Sgrîn 4

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am ddefnyddio mwyar duon i liwio crys-t gwyn. Rhowch y cyfarwyddiadau ar y sgrîn ac yna'u hegluro. Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa offer fydd eu hangen arnoch i wneud yr arbrawf hwn?
- Beth fydd yn rhaid i chi ei fesur? Pam?
- Sut y byddwch yn defnyddio llinyn, bandiau rwber ac ati i greu patrymau ar eich crys-t?

## Sgrîn 5

Gwahoddwch y dysgwyr i gasglu eu hoffer ac i liwio eu crys-t.

## Sgrîn 6

Gwahoddwch y dysgwyr i gymharu eu crys-t â rhai eraill yn y dosbarth ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth wnaethoch chi sylwi arno wrth liwio eich crys-t?
- I ba raddau mae eich ymdrech i greu patrymau wedi gweithio?
- Pa fathau o greu patrymau sydd wedi gweithio'n dda?
- Pa agweddau ar y mathau hyn o greu patrymau, a'u gwnaeth yn llwyddiannus?
- Pa fathau o greu patrymau sydd heb weithio cystal?
- Pe byddech chi'n gwneud hyn eto, sut fyddech chi'n newid eich dull o greu patrymau?

## Sgrîn 7

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am greu clytwaith o sgwariau o ffabrig lliw, ar y cyd fel dosbarth.

Byddant yn gweithio mewn grwpiau bach a bydd angen i bob grŵp liwio 5 sgwâr o ffabrig, pob un â phatrwm gwahanol.

Eglurwch y gellir gwneud llifynnau naturiol o lawer o wahanol echdynion planhigion. Gwahoddwch barau o ddysgwyr i ymchwilio ar-lein i ddarganfod a gwneud rhestr o echdynion planhigion y gallent eu defnyddio, gan deipio eu syniadau yn y blwch.

## Sgrîn 8

Gofynnwch i barau o ddysgwyr ymchwilio ar-lein i ddarganfod sut i wneud llifynnau (lliwiau) o'r echdynion planhigion y daethant o hyd iddynt o'r blaen.

Gwahoddwch nhw i ddewis un ffordd syml o wneud llifyn o echdynion planhigion a'i disgrifio i'r grŵp sydd newydd ei ffurfio.

## Sgrîn 9

Gofynnwch i bob grŵp o ddysgwyr fyfyrio ar yr holl ffyrdd a ddisgrifir i wneud llifyn o echdynnyn o blanhigyn. Yna, dylent benderfynu pa rai o'r ffyrdd y maent am eu defnyddio, gan restru'r offer y bydd eu hangen arnynt, yn y blwch a ddarperir.

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am y gwahanol ffyrdd y gwnaethon nhw eu defnyddio i wneud patrymau ar eu crys-t a disgrifio'r ffyrdd mwyaf llwyddiannus, i'r grŵp.

Gwahoddwch bob grŵp i benderfynu sut maen nhw'n mynd i wneud patrymau ar bob un o'r 5 sgwâr o ffabrig. Atgoffwch y dysgwyr y dylai fod patrwm gwahanol ar bob sgwâr a gofynnwch iddyn nhw ychwanegu unrhyw offer pellach sydd ei angen, at eu rhestr yn y blwch a ddarperir.

## Sgrîn 11

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored i gasglu'r planhigion ar gyfer gwneud eu hechdynion.

## Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r planhigion maen nhw wedi'u casglu i wneud eu hechdynion. Gwahoddwch nhw i liwio a chreu patrymau ar y pum sgwâr o ffabrig, gan ddefnyddio'r dulliau y cytunwyd arnynt yn eu grŵp. Dylai dysgwyr wedyn greu eu clytwaith gan ddefnyddio'r sgwariau ffabrig lliw a grëwyd gan y dosbarth.

## Sgrîn 13

Ar sgrîn olaf y dasg hon, darperir ymadroddion y gall dysgwyr eu defnyddio ar ddechrau brawddegau, pan yn myfyrio ar y dasg. Gwahoddwch nhw i ddefnyddio un neu fwy o'r rhain i gwblhau eu brawddegau.